



A NEW AND EXCITING CRAFT SELLER

We caught up with Sian, owner of Sian's Emporium, to find out more about her business.



Tell us a bit about your business.

"We are a small family business making wide range of products, that we sell at public events, and now out of our retail and manufacturing base in Llandeilo.

"Our range includes our health & beauty gifts, games & puzzles, timber products, fossils, gemstones and handmade jewellery.

"We are continually innovating new products, such as the gel candles that were a huge hit at Christmas!

"The business came about after my father sustained a serious injury. He was forced to stop work and undergo occupational therapy. Part of this was to make things with his hands to regain his skills. As his skills improved so did the quality of what he produced. To fund further projects, we sold some items to friends and family and so the beginning of business was formed."

What barriers did you overcome when setting up your business?

"The business was gaining momentum when the pandemic hit, and the lockdowns and restrictions made it quite difficult to trade. With the impact of COVID-19, and the nature of the business, when we could go to fairs and markets, we had to pay 6 to 9 months in advance. Cash flow became tight, and being a single mum, living in rented accommodation I was turned down by my current bank.

"I applied to Purple Shoots and they showed a great deal of faith and granted me a loan. This supported me for several Cardiff events and allowed me to get more stock to trade.

"However, just before the Christmas season started, I contracted sepsis. It was not only touch and go for me, but also for the business. If I could not undertake the events, then the losses would be difficult to swallow. I managed to pull through and completed the Christmas events with a healthy turnover!





"Aside from the usual barriers of experience, knowledge and funding, the biggest barrier was finding a suitable premises within Carmarthenshire. Whilst a business may be able to start on the kitchen table, growing a business soon means you need more and more space, and it begins to take over not only your life but your home. We desperately, wanted to stay in Carmarthenshire, but finding a suitable property at an affordable price seemed an impossible task. We were getting approaches from the neighbouring counties (even Cornwall) to relocate. However, we stuck to our plan and eventually found our new retail and manufacturing base in Llandeilo."

How has the Hub supported you?

"Like most people starting out on a journey, we know where we want to go and then what to do when we arrive. The Hub is like a business travel agent showing you what you need before you start your journey, and then all the steps to get you to your destination. Sometimes it is a simple guide or a training video or just giving you the confidence to persevere. One statistic I found useful is that of all the ladies that come forward with a business idea, 80% don't continue because of confidence or some other barrier. I was determined not to be one of these and soaked up as much information as I could."

"Whilst the pandemic really hampered my business, the downtime from trading was a useful break as I could revisit many of the presentations and videos to realign what I was doing and get up my website and social media into play."

"I would recommend the Hub to others, especially to our ladies with big and small ambitions who want to take their first steps into business. Two things that are vital to succeed are confidence and credibility, which the Hub can help via training and mentoring."

What are your future plans for the business?

"Wow, where do we start! Firstly, we have a working relationship with TimberKits (See Dragons Den) who are Welsh company that currently manufacture in China and want to bring manufacturing back to the UK using our new facilities in Llandeilo. We have also bold recruitment plans especially those for who find the mainstream workplace difficult due to a physical or psychological limitation, or lifestyle constraint."

"We have the refurbishment of our new premises and the creation of the retail, café and workshops. It has a large growing space where we can produce our own botanicals, as well as organic items for our new food range. It also allows us to become as near to zero waste as possible. We currently either reuse or compost our packaging, and now we have the space to save rainwater and even recycle our grey water to sustain our plants. To underline our commitment, we are part of the Welsh Government Green Growth Pledge and SME Climate Change programmes. We even have a pair of Red Kites which regularly majestically fly over our garden."

"Throughout 2022 and 2023, we are going to invest in both ends of the manufacturing skill sets, traditional handcrafts and highly specialised CNC, laser and plasma cutters."



GWERTHWYR CREFFTAU NEWYDD A CHYFFROUS

Cawsom sgwrs gyda Sian, perchennog Sian's Emporium, i ddysgu mwy am ei busnes.



Dywedwch ychydig wrthym am eich busnes.

"Busnes teuluol bach sy'n gwneud ystod eang o gynnyrch ydan ni, ac rydym yn eu gwerthu mewn digwyddiadau lleol, a bellach o'n safle gweithgynhyrchu yn Llandeilo.

"Mae ein cynnyrch yn cynnwys rhoddion iechyd a harddwch, gemau a phosau, cynnyrch wedi eu gwneud allan o bren, gemfeini a gemwaith wedi eu gwneud â llaw.

"Rydym yn arloesi cynnyrch newydd yn barhaus, megis y canhwyllau gel a oedd yn boblogaidd iawn dros y Nadolig!

"Daeth y busnes i fod ar ôl i fy nhad ddiweddef anaf difrifol. Bu rhaid iddo roi'r gorau i weithio a chael therapi galwedigaethol. Rhan o hyn oedd gwneud pethau hefo'i ddwylo er mwyn adennill ei sgiliau. Fel yr oedd ei sgiliau'n gwella, felly hefyd yr oedd yr hyn yr oedd yn ei gynhyrchu. Er mwyn cyllido rhagor o brosiectau, fe wnaethom werthu eitemau i deulu a ffrindiau ac felly y ffurfiwyd busnes."

Pa rwystrau wnaethoch chi eu goresgyn wrth sefydlu eich busnes?

"Roedd y busnes yn ennill momentwm pan ddaeth y pandemig, ac roedd y cyfnod clo a chyfyngiadau yn ei gwneud hi'n anodd masnachu. Gydag effaith COVID-19, a natur y busnes, pan oeddem yn gallu mynd i ffeiriau a marchnadoedd, roedd rhaid inni dalu 6 i 9 mis ymlaen llaw. Roedd llif arian yn dynn, a gan fy mod yn fam sengl ac yn byw mewn llety rhent, cefais fy ngwrthod gan fy manc.

"Fe wnes i gais i Purple Shoots ac fe wnaethon nhw ddangos cryn dipyn o ffydd a rhoi benthyciad imi. Fe oedd hyn o gymorth imi gyda sawl digwyddiad yng Nghaerdydd a bu iddo fy ngalluogi i gael mwy o stoc i'w werthu.

"Fodd bynnag, ychydig cyn tymor y Nadolig, fe gefais sepsis. Roedd hi'n edrych yn ddu arna i a'r cwmni. Pe na bawn yn gallu ymgymryd â'r digwyddiadau yna byddai'r colledion yn anodd eu derbyn. Mi wnes i wella a llwyddo i gwblhau'r digwyddiadau Nadolig gyda throsiant iach!





"Ar wahân i'r rhwystrau arferol o brofiad, gwybodaeth a chyllid, y rhwystr pennaf oedd dod o hyd i safle addas o fewn Sir Gaerfyrddin. Er bod modd i fusnes gychwyn ar fwrdd y gegin, mae tyfu busnes yn golygu y byddwch angen mwy a mwy o le yn fuan iawn, ac mae'n dechrau rheoli, nid yn unig eich bywyd, ond eich cartref hefyd. Roeddem ar dân eisiau aros yn Sir Gaerfyrddin, ond roedd dod o hyd i eiddo addas am bris fforddiadwy yn dasg amhosib. Roedd siroedd cyfagos (hyd yn oed Cernyw) yn gofyn inni adleoli. Ond mi wnaethom gadw at ein cynllun a dod o hyd i safle manwerthu a gweithgynhyrchu newydd yn Llandeilo yn y pendraw."

Sut mae'r Hwb wedi bod o gymorth ichi?

"Fel y rhan fwyaf o bobl sy'n cychwyn ar daith, rydym yn gwybod i le rydym eisiau mynd a beth i'w wneud ar ôl cyrraedd. Mae'r Hwb fel asiantaeth deithio ar gyfer busnesau, yn dangos ichi beth ydych ei angen cyn ichi ddechrau ar eich taith, ac yna'r holl gamau sy'n mynd â chi i'ch cyrchfan. Weithiau mae'n arweiniad syml neu'n fideo hyfforddiant neu dim ond rhoi'r hyder ichi ddal ati. Un ystadegyn wnes i ei weld yn ddefnyddiol oedd, o'r holl ferched sy'n cael syniad am fusnes, dydi 80% ddim yn rhoi cynnig arni oherwydd diffyg hyder neu ryw rwystr arall. Roeddwn i'n benderfynol na fyddwn i'n un o'r rhain gan gasglu cymaint o wybodaeth ag y gallwn."

"Er bod y pandemig wedi llesteirio fy musnes, roedd y toriad oddi wrth fasnachu yn egwyl ddefnyddiol a'm galluogodd i ail ymweld â nifer o'r cyflwyniadau a'r fideos i adlinio beth oeddwn i'n ei wneud a chael trefn ar fy ngwefan a chyfryngau cymdeithasol."

"Byddwn yn argymhell yr Hwb i eraill, yn enwedig i'r merched sydd ag uchelgeisiau bach a mawr ac eisiau cymryd eu camau cyntaf i ddechrau busnes. Dau beth sy'n hanfodol ar gyfer llwyddo ydi hyder a hygredded, a gall yr Hwb fod o gymorth gyda hyn drwy hyfforddi a mentora."

Beth yw eich cynlluniau ar gyfer y busnes yn y dyfodol?

"Wow, lle dwi'n dechrau? I ddechrau, mae gennym berthynas waith gyda TimberKits (Gweler Dragons Den) sy'n gwmni o Gymru yn gweithgynhyrchu yn China ac sydd eisiau dod ag o yn ôl i'r DU gan ddefnyddio'n cyfleusterau ni yn Llandeilo. Mae gennym gynlluniau recriwtio beiddgar, yn enwedig i'r rhai sy'n gweld y prif weithle yn anodd oherwydd cyfyngiadau seicolegol neu gorfforol, neu gyfyngiadau yn eu ffordd o fyw."

"Rydym yn adnewyddu ein safle newydd ac yn agor siop, caffi a gweithdai. Mae yno ardal eang i dyfu pethau lle gallwn ni gynhyrchu ein botanegau, yn ogystal â deunyddiau organig ar gyfer ein hystod bwyd newydd. Mae hefyd yn ein galluogi i fod cyn agosed â phosib at fod yn ddiwastraff. Rydym yn ailddefnyddio neu'n compostio ein deunydd pecynnu, a bellach mae gennym le i arbed dŵr glaw a hyd yn oed ailgylchu dŵr llwyd i gynnal ein planhigion. I gadarnhau ein hymrwymiad, rydym yn rhan o Gonsortium Addewid Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru a rhaglenni Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer BBaCh. Mae gennym hyd yn oed bâr o Farcutiaid Coch sy'n hedfan yn urddasol dros ein gardd yn rheolaidd."

"Drwy gydol 2022 a 2023, rydym am fuddsoddi ym mhob pen o'r set sgiliau gweithgynhyrchu, crefftau traddodiadol wedi eu gwneud â llaw a thorwyr arbenigol plasma, laser a CNC."